

Adroddiad Ôl-Ymgynghori

Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llandaf – Gorchymyn Traffig Arbrol

Rhif Project: CO18122

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 20 Medi 2018 a 11 Hydref 2018, er y cafodd unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law yn fuan ar ôl y dyddiad cau ei chynnwys yn rhan o'r adroddiad hwn. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â gofidiau lleol pan fo modd.

O'r tua 75 o eiddo yr ymgynghorwyd â nhw, a'r 6 hysbysiad safle a roddwyd ar y safle ei hun, cafwyd tri ymateb unigol, a cheir crynodeb ohonynt isod fel a ganlyn:

- 23 - Cefnogi'r cynnig
- 7 – Gwrthwynebu'r cynnig

Ceir y gofidiau a'r sylwadau mewn ysgrifen italig, isod ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

O ystyried yr isod, cynigir bwrw ymlaen gyda'r cynllun, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael. Bydd y cynllun yn cyflwyno gwaharddiad arbrolol rhag troi i'r dde ac i'r chwith i Hendre Close rhwng 7:30am a 9:30am, a 14:30pm a 17:00pm, sef oriau brig gollwng a chasglu o Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llandaf.

Dyma isod y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn erbyn y cynnig:

Mater - Caiff y Broblem gyda Pharcio ei Adleoli i Strydoedd Cyfagos

"Mae'r cynnig yn debygol o arwain at gynnydd sylweddol yn y traffig yn y ffyrdd o amgylch Hendre Close, sef Insole Gardens, Hendre Gardens, a Vaughan Avenue. Rydym yn pryderu y bydd y problemau presennol o barcio'n ddi-hid a gyrru'n beryglus yn cael eu symud i'r ffyrdd o amgylch Hendre Close. A roddwyd ystyriaeth i fesurau eraill y gellid eu rhoi ar waith hefyd er mwyn lliniaru effaith y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig arfaethedig."

"Nid wyf yn credu y bydd atal rhieni plant ysgol rhag cael mynediad i gerbydau i Hendre Close yn hwyluso diogelwch disgyblion, rhieni a gofawyr ond yn syml bydd yn symud y broblem i strydoedd eraill gerllaw, lle mae tagfeydd eisoes yn fater sylweddol ar amseroedd danfon a chasglu"

"Ofnaf y bydd y cynnydd disgwylidig hwn yn y llif traffig ar y strydoedd cyfagos hyn yn cyflwyno ei swp ei hun o faterion diogelwch i gerddwyr a phreswylwyr fel ei gilydd, yn ogystal â chynnydd yn y risg o ddamweiniau traffig wrth gyffordd Insole Gardens a Rhodfa Vaughan sydd eisoes yn beryglus"

"Fodd bynnag, mae gan drigolion Hendre Close hefyd bryder mawr am effeithiau ehangach y cynigion traffig hyn. Bydd y problemau parcio yn cael eu symud ymhellach i ffwrdd, gyda pharcio mwy di-hid a pheryglus o gwmpas yr ardal yn cynnwys o gwmpas y gylchfan wrth Vaughan Avenue ac ar y mannau gwyrdd. Mae yna bryderon ynglŷn â pharcio diwahân o flaen tramwyfeydd a hefyd mynediad i gerbydau argyfwng pe byddai eu hangen."

"Bydd y cynllun hwn, os caiff ei roi ar waith, yn anochel yn gwthio traffig yn ôl i gyfeiriad Vaughan Avenue ac yn benodol at y gylchfan yno. Mae fy nghymdogion a minnau wedi gweld cynnydd aruthrol mewn parcio ar berimedr gwirioneddol y gylchfan, gyda cherbydau'n cael eu parcio'n rheolaidd gyda dwy neu bob pedair olwyn ar y glaswellt (sy'n achosi rhigolau dwfn mewn tywydd garw) a hefyd wedi parcio'n wynebu traffig sydd ar ddod, er bod arwyddion wedi cael eu hamnewid yn ddiweddar (ar ôl dros flwyddyn o ofyn am hyn dros y ffôn a thrwy e-bost). Eu hunig ffordd o symud ymlaen eto yw gyrru yn erbyn y traffig sydd ar ddod, neu wneud tro 3 phwynt tra bod ceir yn parhau i lifo o gwmpas y gylchfan. Mae pedair rhes o gerbydau sydd wedi'u parcio (wrth y cwrbyn ac wrth ymyl y gylchfan) ond yn gosod y llwyfan i ddamwain ddigwydd, i blentyn ifanc o bosibl."

Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth mewn perthynas â sut y caiff y cynnig ei fonitro. Mae potensial i'r cynnig waethygu'r sefyllfa draffig presennol yn ystod amseroedd gollwng, ac os felly efallai na fydd yn briodol caniatáu i'r cynllun barhau am y 18 mis cyfan. Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i fonitro'r cynllun yn ystod yr ychydig wythnosau a misoedd cyntaf? A fydd unrhyw gamau o'r fath yn parhau drwy gydol cyfnod y treialu?"

Ar ôl rhoi'r cynllun ar waith bydd yr awdurdod lleol yn asesu ac yn monitro'r cynllun, bydd hyn yn cael ei wneud mewn cyfathrebiad â'r ysgol a bydd ymweliadau â safleoedd yn cael eu cynnal yn ystod yr amseroedd gwaharddedig er mwyn asesu effaith y cynllun. Os canfyddir materion diogelwch ffyrdd ychwanegol wrth fonitro'r cynllun hwn, caiff y materion hyn eu cyfeirio at y tîm Gorchymyn Rheoleiddio Traffig i ymchwilio i benderfynu a oes angen cyfyngiadau ychwanegol neu ddiwygiedig.

Mae'r isod yn sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd o blaid y cynnig:

"Llongyfarchiadau wrth ystyried diogelwch plant ar y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig uchod."

"Yn gyntaf, rydym yn llwyr werthfawrogi'r angen i gymryd camau i leihau nifer y cerbydau sy'n gyrru heibio i'r ysgol er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion, trigolion a staff yr ysgol. Rydym yn cro

Sylw - sut bydd y cynllun newydd yn cael ei orfodi?

"Yn olaf, nodwn y gallai cosbau gael eu gosod ar ffurf cosbau tâl. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fanylion wedi'u rhoi ynghylch pwy fydd yn monitro cydymffurfiaeth y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig ac felly'n codi tâl ar berchnogion cerbydau perthnasol. Heb orfodaeth addas o amodau'r

Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, mae gyrwyr yn debygol o ddiystyru telerau'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig ac ni fydd ei effaith fwriadedig yn cael ei gyflawni. Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i sicrhau cydymffurfio â'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig yn ystod cyfnod y treial?"

Os nad yw cerbyd yn cydymffurfio â'r gwaharddiad gyrru hwn, gallent fod yn destun hysbysiad tâl cosb pan fydd Swyddog Gorfodi Sifil/yr Awdurdod yn rhoi'r tâl hwn i'r perchennog drwy ddefnyddio Car Camera'r Tîm Gorfodi Sifil.

Pe bai problem barhaus mewn lleoliad, byddai'r Cyngor yn ystyried cyflwyno camera gorfodi sefydlog i orfodi'r Gorchymyn Traffig.

Sylw – cais am Orchmynion Rheoleiddio Traffig ychwanegol

"A gaf awgrymu eich bod yn bwrw ymlaen â'ch cynlluniau ac yn ychwanegol at y ffaith eich bod yn gwneud ystâd Insole yn system un ffordd gyda dim stopio"

"Ar ôl cyfarfod fis Mai diwethaf gyda chynrychiolwyr ysgolion a phreswylwyr, deallaf fod ein AS, Kevin Brennan, a oedd yno hefyd, wedi gwneud cais am i linellau melyn dwbl gael eu rhoi o gwmpas y gylchfan (nid wrth ymyl y palmant wrth y tai), ond nad yw hyn wedi cael ei roi ar waith eto. Rwy'n annog y Cyngor i roi'r cynnig hwn ar waith CYN i ddamwain ddigwydd."

"A gaf awgrymu eich bod yn bwrw ymlaen â'ch cynlluniau ac yn ychwanegol at y ffaith eich bod yn gwneud ystâd Insole yn system un ffordd gyda dim stopio."

"A fydddech cystal ag ystyried cyfyngiadau parcio ar gylch mewnol y gylchfan yn Vaughan avenue, Llandaf. Mae'n hollol amlwg fod parcio ar ddwy ochr i'r gylchfan yn beryglus iawn wrth geisio cael plant allan o'r car, yn enwedig ar yr ochr ogleddol (ochr Insole Court) lle nad oes palmant"

"Rwy'n byw ar Insole Gardens ac mae'n beryglus pan fydd rhieni'n parcio ar ben y ffordd. Mae hyn yn golygu fod rhaid i chi fynd ar ochr dde'r ffordd i droi i'r dde ac mae'r gwelediad hefyd ynghudd oherwydd y parcio. Rwyf bob amser yn poeni oherwydd bob amser rwyf yn ceisio tynnu allan, gallai car arall fod yn ceisio troi i'r ffordd. A fyddai modd rhoi llinellau melyn wrth y man ildio felly ni all unrhyw un barcio'n union ar ddiwedd y ffordd. Rwyf wedi codi hyn o'r blaen pan ofynnwyd i mi am barcio yn yr ardal."

"Man cyfyng ar hyn o bryd i gerbydau sy'n ceisio mynd i mewn i Hendre Close yw'r corneli rydych yn tynnu sylw atynt ar eich cynllun, yn enwedig gan fod cerbydau'n parcio ar draws cwrbiau isel ac yn union gyferbyn â'r gyffordd. Awgrymwn felly fod y cynigion yn cynnwys rhyw fath o gyfyngiad parhaol ar barcio ar gorneli Hendre Close ac yn union gyferbyn ar

gornel Hendre Gardens a Vaughan Ave i hwyluso diogelwch pawb wrth y fynedfa i Hendre Close."

Nid oes unrhyw gynigion i gyflwyno Gorchmynion Rheoli Traffig ychwanegol fel rhan o'r cynllun hwn. Dylid cyfeirio unrhyw geisiadau am Orchmynion Rheoleiddio Traffig at y tîm Gorchmynion Rheoleiddio Traffig i ymchwilio, gellir cysylltu â'r tîm drwy'r manylion isod:

Tîm Gorchmynion Rheoleiddio Traffig, Cyngor Caerdydd, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW NeighbourhoodServices-BusinessSupport@cardiff.gov.uk

Sylw – Pwy fydd yn cael eu heithrio?

"A fydd eithriadau'n cael eu darparu i gerbydau brys sydd angen mynediad yn ystod yr oriau perthnasol?"

"Rhaid i'r ateb arfaethedig sicrhau nad yw trigolion yn cael eu hynysu a bod ar wahân o'u holl deulu, ffrindiau ac eraill."

"Bydd angen i deuluoedd, ffrindiau, gofawyr, pobl sy'n gweithio, personau danfon ac ati fod â mynediad i gerbydau i'n heiddo yn ystod yr oriau cyfyngedig arfaethedig"

"Gofynnwn sut y bydd mynediad o'r fath i gerbydau'n cael ei ganiatáu a'i fonitro"

"Rydym hefyd yn gofyn sut y bydd y rheini nad oes bwriad iddynt gael mynediad i gerbydau yn cael eu hatal rhag gwneud hynny a'u monitro."

Bydd y cerbydau a gaiff eu heithrio yn breswylwyr, ymwelwyr gofal/iechyd neu ymwelwyr hanfodol i breswylwyr (Mae'r rhain yn rhifau cofrestru a fydd yn cael eu darparu gan y preswylwyr) bydd staff a bydd danfoniadau'n cael eu heithrio rhag y Gwaharddiad Gyrru a bydd ganddynt fynediad yn ystod yr adegau hyn. Caiff rhestr o'r cerbydau hyn ei chadw a'i monitro gan yr awdurdod. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, bydd llythyr ychwanegol yn cael ei anfon, a fydd yn rhoi gwybodaeth i drigolion ar sut i gael eu cynnwys ar y rhestr o gerbydau awdurdodedig.

Sylw – Gorfodi cyfyngiadau presennol a materion â rhwystro tramwyfeydd

"Mae'r rhieni yn aml yn parcio dros dramwyfeydd preifat, yn cau gyrwyr eraill i mewn, yn parcio dwbl fel na all unrhyw un arall fynd trwodd (dychmygwch fod Ambiwlans yn ceisio) a pharcio ar leiniau glaswellt dilychwin. Fodd bynnag, fy mhryder i yw y bydd hyn ond yn trosglwyddo'r broblem i'r strydoedd eraill ac ati. Bydden nhw'n parcio ar ddarn chwe cheiniog pe bydden nhw'n gallu."

"Rydym hefyd yn gofyn sut y bydd y rheini nad oes bwriad iddynt gael mynediad i gerbydau yn cael eu hatal rhag gwneud hynny a'u monitro."

"Nodaf fod gyrwyr danfon wedi'u heithrio, ond mae'n werth nodi bod yna fater cyffredin o yrwyr danfon, gweithwyr a thacsis yn parcio ar y marciau "dim stopio" melyn yn union y tu allan i'r ysgol a bydd angen i'r mater hwn gael ei reoli neu bydd diogelu'n parhau i beri pryder."

Mewn perthynas â cherbydau sy'n torri'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig presennol ac os bydd cerbydau yn parcio ar draws croesfan isel bydd Swyddogion Gorfodaeth Sifil yn gallu ymdrin â throseddau o'r fath drwy Hysbysiad Tâl Cosb. Arfer y Cyngor yw mai dim ond pan dderbynnir cwyn benodol gan y meddiannydd mewn perthynas â cherbyd penodol y byddai gorfodi yn digwydd. Lle nodir digwyddiadau, gellir eu reportio i'r Swyddogion Gorfodi Parcio Sifil sydd ar gael ar Caerdydd 20872087.

Sylw – Cais am i bwynt "gollwng" gael ei greu

"Un ateb rhannol i weithio ar y cyd â'ch cynnig efallai yw creu pwynt gollwng/casglu diogel ar gyfer disgyblion, efallai wrth y gylchfan, i leihau'r angen am barcio i rieni. Byddai angen i hwn gael ei staffio a'i gytuno gan rieni (yr hen gynllun bws cerdded). Byddai angen ei batrolio/monitro i atal unrhyw berygl sy'n blocio'r ffordd a allai gael ei greu yn yr ardal ar adegau prysur."

Polisi Cyngor Caerdydd yw annog a hyrwyddo'r defnydd cynyddol o ddulliau teithio cynaliadwy. Rhoddir pwyslais ar deithio drwy ddulliau llesol lle y bo'n bosibl ac ar ddarparu'r cyfleusterau a'r cyfleoedd yn yr ysgol i ddisgyblion deithio ar droed, drwy feicio ac ar drafndiaeth gyhoeddus. Mae annog teithio llesol i'r ysgol yn ffordd bwysig iawn o gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ymysg plant, ac o fynd i'r afael â'r broblem gynyddol o ordewdra mewn plentyndod.

Mae lleihau tagfeydd wrth giât yr ysgol yn allweddol i sicrhau diogelwch disgyblion ac i liniaru effeithiau ar y gymdogaeth leol. Yn gyffredinol, ni chefnogir y ddarpariaeth o leoedd parcio i rieni. Y rheswm am hyn yw y byddai darpariaeth o'r fath yn hybu teithio i'r ysgol mewn car, yn cynhyrchu traffig lleol, yn cyfrannu at dagfeydd ac yn lleihau diogelwch disgyblion.